



Astudiaeth gan Fenter Iaith Fflint a Wrecsam: Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru

Mae **Menter Iaith Fflint a Wrecsam** a **Menter Iaith Sir Ddinbych** yn archwilio'r syniad o sefydlu Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol newydd yn y Gogledd-Ddwyrain, er mwyn helpu nifer o sectorau, nid yn unig i gwrdd â'u dyletswyddau cynyddol o dan y Safonau Iaith, ond hefyd er mwyn hybu a hwyluso defnydd cynyddol o'r iaith ym mhob sector ac ar draws ystod o weithgareddau bob dydd.

Holiadur cychwynnol yw hwn, wedi'i gynllunio i fod mor syml â phosibl ac ni ddylai gymryd llawer o amser i chi ei gwblhau. Caiff cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb eu trefnu dros yr haf, unwaith i ganlyniadau'r holiadur cychwynnol cael eu dadansoddi, oherwydd bydd y canlyniadau hynny yn rhoi sylfaen gadarn i'r trafodaethau mwy manwl sydd i ddilyn.

C1) I ba fath o gorff ydych chi'n gweithio neu'n ei gynrychioli?

- 1.1) Cyhoeddus (e.e. staff cynghorau sir, tref, cymunedol ac ati)
- 1.2) Sifil/Cenedlaethol (y Llywodraeth, Cyfoeth Naturiol Cymru ac ati)
- 1.3) Addysg (ysgolion, colegau, boed yn staff dysgu neu weinyddol)
- 1.4) Iechyd (byrddau iechyd, ysbytai, fferyllfeydd, meddygfeydd)
- 1.5) Gwasanaethau Brys (yr heddlu, gwasanaeth tân ac achub, ambiwlans ac ati)
- 1.6) Preifat (cwmnïau mawr, siopau bach, banciau, pobl hunangyflogedig ac ati)
- 1.7) Gwirfoddol (elusennau mawr a bach, grwpiau cymunedol)
- 1.8) Crefyddol (eglwysi a chapeli unigol neu gyrff crefyddol cenedlaethol)
- 1.9) Aelod o'r cyhoedd yn unig (sef o ochr derbyn gwasanaethau nid eu darparu)
- 1.10) Cyfieithydd presennol (mae cwestiwn 8 hefyd yn benodol i chi'n unig)

C2) Beth yw eich defnydd presennol o ran gwasanaethau cyfieithu?

(Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol)

2.1) Dyddiol

2.2) Wythnosol

2.3) Misol

2.4) Achlysurol / anodd mesur

2.5) Ar frys (e.e. er mwyn rhoi neges ar unwaith ar gyfryngau cymdeithasol a.y.b.)

C3) Ym mha ffordd ydych chi yn, neu am, ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu?

(Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol)

3.1) Ysgrifenedig

3.2) Wyneb-yn-wyneb / dros y ffôn

3.3) Cyfieithu ar y pryd

3.4) Cymysgedd o'r uchod

C4) Am ba reswm ydych chi yn, neu am, ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu?

(Ticiwch bob ateb sy'n berthnasol)

4.1) Dyletswydd statudol

4.2) Dewis gwirfoddol

4.3) Cymraeg yw'n iaith gyntaf fel aelod o'r gymuned ac fel aelod staff

C5) Beth, os o gwbl, yw'r rhwystrau neu heriau i chi ar hyn o bryd o ran gwasanaethau cyfieithu? (Ticiwch un dewis am bob opsiwn os gwelwch yn dda)

Dim
o gwbl

Isef
iawn

I raddau
helaeth

Uchel
iawn

5.1) Argaeledd cyfieithu ysgrifenedig

5.2) Argaeledd cyfieithu ar y pryd

5.3) Costau'r gwasanaethau

5.4) Amser aros o ran gwaith ysgrifenedig

5.5) Delio â'r cynnydd o ran y galw yn y dyfodol

5.6) Unrhyw beth arall? (Nodwch isod)

C6) Y nod yw sefydlu Uned Gyfieithu Gymunedol fel cwmni nid-er-elw, annibynnol a hunangynhaliol. Gyda hyn mewn cof, a wnewch chi nodi os ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod os gwelwch yn dda?

	Cytuno	Anghytuno	Dim Barn
6.1) Mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn un fforddiadwy i unrhyw gwsmer o unrhyw sector			
6.2) Mae'n bwysig i'r gwasanaeth newydd gydweithio â gwasanaeth cyfieithu cyfredol			
6.3) Nid oes digon o wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig ar gael ar hyn o bryd			
6.4) Nid oes digon o wasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gael ar hyn o bryd			
6.5) Gall y fath gwasanaeth gynyddu'r cyfle i bobl leol defnyddio'u Cymraeg bob dydd			
6.6) Gall y fath gwasanaeth greu cyfleoedd i bobl leol datblygu sgiliau gwaith iaith Gymraeg			

C7) Oes unrhyw beth arall hoffech chi godi o ran y galw neu ddarpariaeth gwasanaethau cyfieithu yn gyffredinol, neu o ran y syniad o greu Gwasanaeth Cyfieithu Cymunedol i'r Gogledd Ddwyrain?

(Nodwch isod os gwelwch yn dda, ac ar dudalen ychwanegol os oes rhaid. Bydd y sylwadau yn cael eu cadw'n anhysbys o ran unrhyw adroddiad ac adborth ffurfiol.)

C8) Cwestiwn i Gyfieithwyr presennol yn unig.

Un o brif amcanion y gwasanaeth arfaethedig yw cynyddu'r capasiti lleol er mwyn helpu sefydliadau ehangu eu defnydd o'r Gymraeg i gwrdd â'u dyletswyddau o dan y Safonau Iaith Gymraeg. Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth yn derbyn gwaith oddi wrth nifer o sectorau, efallai'n ddyddiol, ac yn amlwg byddwn am gydweithio gyda chi er mwyn cwrdd â'r galw hynny.

A fyddech mor garedig felly a nodi'ch barn broffesiynol isod am y fath cynnig, a hefyd nodi unrhyw syniadau sydd gennych o ran y posibiladau, heriau a chyfleoedd cydweithio. Rydym am i'r gwasanaeth, os aiff ymlaen, fod yn un cefnogol i gyfieithwyr presennol a hybu defnydd o'r iaith, ac nid yn gystadleuaeth o ran gwaith cyfieithu yn yr ardal.

(Nodwch isod os gwelwch yn dda, ac ar dudalen ychwanegol os oes rhaid. Bydd y sylwadau yn cael eu cadw'n anhysbys o ran unrhyw adroddiad ac adborth ffurfiol.)

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gwblhau'r holiadur hwn:

- ar-lein drwy ddilyn y linc - <https://www.surveymonkey.co.uk/r/267FYHH>
- ei argraffu, ei gwblhau a'i bostio nôl
- ei argraffu, ei gwblhau, ei sganio ac e-bostio nôl
- cwblhau ar y PDF rhyngweithiol hwn ac e-bostio nôl

Trwy'r Post:



Menter Iaith Fflint a Wrecsam,
Corlan,
Uned 3,
Parc Busnes yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam,
Yr Wyddgrug,
CH7 1XP

Dros e-bost:



gill@menterfflint.cymru

neu

dai@cwmni2.cymru

Diolch yn fawr am gymryd o'ch amser i gwblhau'r holiadur. A wnewch chi ei ddychwelyd erbyn 02/06/17 os gwelwch yn dda. Mae'r holiadur hwn hefyd ar gael yn Saesneg.